Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Uned Addysg Marlowe St David's

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Uned Addysg Marlowe St David's

Mae Uned Addysg Marlowe St David’s yn ysgol annibynnol arbennig sydd wedi’i lleoli yng ngogledd Sir Benfro. Y perchennog yw Marlowe Child and Family Services Ltd. Mae’r ysgol wedi’i chofrestru i dderbyn hyd at 20 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), anawsterau dysgu cymedrol (ADC) ac anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Mae’r ysgol yn darparu addysg ar gyfer pobl ifanc 8-16 oed, sy’n byw yng nghartrefi plant y cwmni, ac yn cynnig lleoliadau dydd yn ogystal. Mae tua hanner y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol wedi’u lleoli gan awdurdod lleol Sir Benfro.

Mae saith o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae gan bump o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu yn Lloegr ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn preswylio yn un o gartrefi plant y perchennog. Saesneg yw mamiaith pob un o’r disgyblion.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2018 a chynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Ionawr 2018.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar lle mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn ffynnu.  Mae'r cydweithio agos rhwng staff addysgu, staff gofal a seicolegwyr clinigol ar y safle yn yr ysgol yn darparu dull effeithiol o ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos gwelliant sylweddol yn eu lefelau presenoldeb dros gyfnod, a bu gostyngiad nodedig yn eu hachosion o ymddygiad heriol.  Mae gan yr ysgol ddull cadarnhaol, a ddeellir yn dda, o reoli ymddygiad.

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth ymhlith staff ac maent wedi eu cymell i ymddiddori mewn dysgu.  Mae'r pennaeth yn llwyddo i hyrwyddo diwylliant o ymddiriedaeth a goddefgarwch yn yr ysgol.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais â'i gilydd, a chyda staff ac ymwelwyr.

Mae'r ysgol wedi gwella'r amrywiaeth o gymwysterau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.  O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa ar lwybrau cymhwyster sy'n berthnasol ac yn cefnogi eu llwybrau ar ôl yr ysgol yn effeithiol.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn annog disgyblion yn dda i gymryd diddordeb, mwynhau eu dysgu a herio eu hunain.  Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r wybodaeth hon i deilwra dysgu er mwyn ennyn diddordeb disgyblion, a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd addas.  Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Mae pob un o'r staff, dan arweiniad hyderus y pennaeth, yn cyfrannu'n llawn at brosesau hunanwerthuso a chynllunio datblygiad yr ysgol.  Mae systemau trylwyr ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn unol â chamau gweithredu penodol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Nid yw'r polisi addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd a'r cynlluniau gwaith presennol yn diwallu anghenion y disgyblion.

Ar yr ymweliad hwn, bu arolygwyr yn ystyried cynnydd yr ysgol yn unol ag argymhellion 1, 2 a 3 yn unig.  Felly, mae argymhellion 4, 5 a 6 o'r arolygiad craidd yn parhau i fod ar waith.

## Argymhellion

### Dylai'r ysgol:

A1 Gwblhau'r polisi addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd i adlewyrchu anghenion y disgyblion a diwygio'r cynllun gwaith yn unol â'r diwygiadau i'r polisi

A2 Adolygu arlwy'r cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn

A3 Cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a gwella trwy werthuso'r holl ddata sydd ar gael

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1:  Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn. Erbyn hyn, mae’r ysgol yn cydymffurfio’n llawn â’r holl safonau a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

**Argymhelliad 2:  Gwella presenoldeb**

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn tuag at fodloni’r argymhelliad hwn.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i gofrestru presenoldeb disgyblion ar gyfer pob sesiwn.  Defnyddir y wybodaeth hon yn dda i fonitro presenoldeb ac adrodd ar hyn i reolwyr y cwmni.

Mae presenoldeb bron pob un o’r disgyblion yn dda ac mae eu presenoldeb wedi gwella dros y flwyddyn.  Mae presenoldeb disgyblion yn llawer gwell nag ydoedd yn eu hysgolion blaenorol.  Eir i’r afael â diffyg presenoldeb yn drylwyr ac mae’r ysgol yn cysylltu â rhieni a staff gofal y cartref bob dydd i sicrhau presenoldeb da.

**Argymhelliad 3:  Sicrhau bod yr addysgu yn diwallu anghenion pob un o’r disgyblion yn gyson**

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd eithriadol o dda tuag at fodloni’r argymhelliad hwn.

Mae athrawon wedi adolygu a gwella eu cynllunio i ganolbwyntio ar gyflwyno profiadau dysgu diddorol ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o’u hanghenion.  Maent yn gweithio’n dda gyda’r tîm seicoleg ar y safle, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad emosiynol disgyblion.  Mae hyn wedi helpu cryfhau eu hymgysylltiad â dysgu.

Mae’r cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.  Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion.  Maent yn gosod amcanion dysgu heriol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt.

**Argymhelliad 4:  Adolygu arlwy’r cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn**

**Argymhelliad 5:  Cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm**

**Argymhelliad 6:  Cryfhau’r prosesau hunanwerthuso a gwella trwy werthuso’r holl ddata sydd ar gael**

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2019